**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (13)**

**Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2002**

# AGENDA

Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad: Strategaeth Troseddwyr Ifanc**

- ***Mae'r eitem hon wedi cael ei gohirio tan ddydd Iau, 27 Mehefin.***

**Eitem 3**
**Datganiad: Diswyddiadau yn Dawn Meats Cyf, Cross Hands**

**Eitem 4**
**Datganiad Busnes:**

**Y Trefnydd**
Cliciwch yma i weld y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 5**
**Cynnig Cyfansawdd**

*NDM1088* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:

**Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002**

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2002; ac

2. Yn ystyried:

adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

3. Yn cymeradwyo:

**Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2002**

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2002; ac

4. Yn ystyried:

adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

5. Yn cymeradwyo:

**Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2002**

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2002; ac

6. Yn ystyried:

adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 6**
**Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 27, Gyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid 2002**

**- TYNNWYD YN OL**
*NDM1089* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2 (iii), yn ystyried Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2002.

Cliciwch yma i weld Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002

**Eitem 7**
**Dadl ar y Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus**

*NDM1090* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cymeradwyo'r Cod Ymarfer diwygiedig ar Benodiadau'r Gweinidogion i Gyrff Cyhoeddus a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 18 Mehefin 2002.

2. Yn cymeradwyo bwriad Prif Weinidog Cymru i gyhoeddi'r Cod ym mis Medi 2002.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)**
**(2)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2 dileu 'Cymeradwyo' a rhoi 'Nodi' yn ei le

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt 3
3. Yn cydnabod yr angen i recriwtio pobl o bob rhan o gymdeithas i wasanaethu ar Gyrff Cyhoeddus

Cliciwch yma i weld Cod Ymarfer diwygiedig ar Benodiadau'r Gweinidogion i Gyrff Cyhoeddus - Ar gael yn saesneg yn unig.

**Eitem 8**
**Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol**

*NDM1091* - Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio methiant y Llywodraeth i wella'r sefyllfa economaidd yng nghefn gwlad Cymru, ac yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno polisïau i wrthdroi'r dirywiad economaidd.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)**
**(2)+(3)**

**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ac ychwanegu:
"yn cymeradwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru am ei pholisïau a'r camau y mae'n eu cymryd i helpu ffermwyr i addasu ac i helpu busnesau gwledig i ddatblygu a ffynnu, ac sy'n anelu at adfywio cymunedau gwledig ymhell i'r dyfodol."

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod effaith polisïau Llywodraeth y DU wrth danseilio economi Cefn Gwlad Cymru.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn ymrwymo i gyflwyno targedau rhanbarthol i hyrwyddo twf economaidd.

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am, ddydd Iau, 27 Mehefin 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**